

Bwletin Awdurdod S4C Ebrill 2000

Mae'r Bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod busnes mwyaf diweddar yr Awdurdod, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2000 yng Nghaerdydd.

Rheoli Corfforaethol

Fel rhan o'i waith i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn cydymffurfiaeth â gweithred gorau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, derbyniodd yr Awdurdod gyflwyniad gan ei Archwilwyr, Grant Thornton, ar y systemau a ddefnyddiwyd ar gyfer asesiad rheolaidd a systematig o risg ar draws holl weithgareddau S4C. Mae'r asesiad hwn yn rhoi'r sail i'r rhaglen flynyddol ar gyfer archwiliad mewnol, sy'n cael ei hystyried a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod. Esiampl o faes risg uchel sydd ag angen archwiliad rheolaidd yw'r broses o gomisiynu rhaglenni S4C, gan gynnwys gallu'r cwmnïau cynhyrchu i ddarparu rhaglenni o'r safon angenrheidiol am y gost a gytunwyd, gan taw hwn yw'r eitem sengl fwyaf o wariant gan y Sianel.

Yn dilyn trafodaeth drylwyr o'r systemau, mynegodd yr Awdurdod ei fod yn eu hystyried yn addas ac yn foddhaol. Byddai eu gweithrediad yn cael ei adolygu'n gyson.

Cyfarfod rhwng Awdurdod S4C a Chyngor Darlledu dros Gymru'r BBC

Adolygodd yr Awdurdod ei gyfarfod y noson gynt yng nghanolfan S4C yn Llanisien, Caerdydd, gydag aelodau Cyngor Darlledu dros Gymru'r BBC, gan gynnwys Llywodraethwr Cenedlaethol dros Gymru'r BBC, Mr Roger Jones, yn ogystal â Rheolwr newydd BBC Cymru, Menna Richards ac aelodau hyn eraill o staff. Credodd yr Awdurdod bod y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol a llwyddiannus iawn, gan ddarparu'r sail ar gyfer y cysylltiadau rheolaidd beunyddiol a chydweithrediad rhwng staff S4C a BBC Cymru. Ystyriodd hi'n arbennig o galonogol bod yna ewyllys gryf ar y ddwy ochr i gydweithredu lle'r oedd hyn o fantais i wylwyr, ac fel yr oedd eisoes yn digwydd ar draws ystod eang o weithgareddau, o ddarpariaeth y BBC o 10 awr o raglenni yr wythnos i S4C, i ddarlledu digwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i nawdd S4C tuag at Cerddoriaeth Genedlaethol Cymru'r BBC. Roedd angen seilio'r cydweithrediad hwnnw ar gyd-ddealltwriaeth llawn ar y naill ochr a'r llall o genhadaeth a chynulleidfaoedd arbennig y ddau ddarlledwr, ac mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith y gallai cystadleuaeth yn aml weithio er budd gwylwyr. Edrychodd yr Awdurdod ymlaen at drafodaethau ar faterion eang rhwng S4C a'r BBC yn y dyfodol, gan gynnwys yn benodol natur a nifer rhaglenni Cymraeg y BBC i'w darlledu ar S4C.

Premiere Miracle Maker yn Llundain

Croesawodd yr Awdurdod y premiere llwyddiannus o'r *Miracle Maker* a gynhaliwyd yn Sinema y Curzon, yn Mayfair, yn dilyn taith y fersiwn Cymraeg, *Gwr y Gwyrthiau* yng Nghymru. Hwn oedd y ffilm fwyaf diweddar ymhlith cyd-gynyrchiadau rhyngwladol animeiddio S4C lle defnyddiwyd timau o animeiddwyr yn Rwsia a Chaerdydd, a'r cyntaf i fod yn brif ffilm llawn. Bu nifer eang o sêr yn bresennol, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, Mr Paul Murphy, AS, a siaradodd yn gynnes iawn am y ffilm. Nododd yr Awdurdod y byddai'n cael ei ddangos ar sianel ABC ledled yr Unol Daleithiau yn ystod y prif oriau ar Sul y Pasg a hefyd fod fersiynau mamiaith yn cael ei dangos mewn nifer o wledydd eraill gan gynnwys Ffrainc, Sbaen a'r Eidal.

Cân i Gymru

Adolygodd yr Awdurdod weithrediad S4C yn sgil y gwendidau yn y llinellau ffôn a drefnwyd gan Broadsystem o dan gytundeb i Apollo, y cwmni oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r rhaglen. Yn dilyn trafodaeth lawn o'r hyn a ddigwyddodd fel canlyniad, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth gohebiaeth oddi wrth y cyhoedd, penderfynodd yr Awdurdod ei fod yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd gan y Prif Weithredwr i ymchwilio'r mater hwn ac i sicrhau bod gwersi wedi eu dysgu ar gyfer y dyfodol. Wrth gadarnhau hyn mewn datganiad i'r wasg, pwysleisiodd yr Awdurdod ei fod yn awyddus i sicrhau gwylwyr S4C ei fod yn rhannu siom y gynulleidfa. Roedd cynnal hyder gwylwyr S4C yn fater ystyriodd i fod o bwysigrwydd mawr. Rhannodd y Cadeirydd a'r Aelodau y tristwch a deimlwyd gan wylwyr a phawb yn gysylltiedig â'r rhaglen ac ymddiheurodd unwaith eto.

Seminar Gregynog

Derbyniodd yr Awdurdod adroddiad gan y Prif Weithredwr ar seminar diweddar a gynhaliwyd yng Ngregynog rhwng staff S4C a'r cwmnïau cynhyrchu ac adnoddau sy'n darparu rhaglenni S4C. Mynychodd dros 80 o bobl achlysur ystyriwyd i fod yn gyfrwng defnyddiol ac adeiladol i gyfnewid a rhannu syniadau ar gyfer y dyfodol. Roedd yn arbennig o gymwys wrth ddatblygu cynigion y broses gomisiynu nesaf ar gyfer rhaglenni i'w darlledu yn 2002 a 2003, gan gynnwys goblygiadau comisiynu rhaglenni ar gyfer llwyfannau amlgyfryngol, gan gynnwys y Rhyngwladol.

Yr Oscars

Er y bu'n siom bod *Solomon a Gaenor*, sef cyd-gynhyrchiad S4C Rhyngwladol, heb ennill Oscar, cytunodd yr Awdurdod yr oedd yn dipyn o gamp i gael enwebiad ac i S4C bellach dderbyn y pedwerydd enwebiad o'r fath o fewn saith mlynedd. Croesawodd y sylw a'r bri rhoddodd hyn i S4C ac i Gymru ledled y byd.

Cydymffurfiaeth

Ystyriodd yr Awdurdod ddau fater a gyfeiriwyd ato gan y Grwp Cydymffurfiaeth, sydd o dan gadeiryddiaeth annibynnol, ynglyn â chydymffurfiaeth dwy raglen unigol gyda chanllawiau rhaglenni statudol S4C. Dyfarnodd fel a ganlyn:

(i) **Y bennod o *Uned 5* a ddarlledwyd ar 26 Gorffennaf 1999**

Yn y rhaglen hon, a ddarlledwyd am 5.00 pm ac a anelwyd at blant, fe wnaeth yr actor Rhys Ifans, yn ystod cyfweiliad lle ddisgrifiodd ei ymateb wrth weld ei hun yn y ffilm *Notting Hill* gyda Julia Roberts a Hugh Grant, ddefnyddio'r term "*Iesu Mawr*" fel ebychiad.

Ceisiodd y cwmni cynhyrchu gyfiawnhau cynnwys yr elfen hon o'r cyfweiliad ar y sail ei bod hi'n dipyn o 'scoop' i gael Rhys Ifans i gymryd rhan yn y rhaglen yn union syth ar ôl i'r ffilm gael ei ryddhau a bod ymateb Rhys Ifans wedi bod yn un onest a naturiol iawn, i'r graddau y byddai wedi bod yn amhosib i'w dorri heb amharu ar lif y frawddeg. Nid oedd y cwmni yn credu bod Rhys Ifans wedi dangos diffyg parch trwy regi yn y modd hwn ond yn hytrach dangosodd ei anghrediniaeth ar ddod yn enwog mor sydyn mewn ffordd y byddai plant yn gallu uniaethu â hi.

Derbyniodd yr Awdurdod fod pawb oedd yn gysylltiedig wedi ymddwyn gyda phob ewylllys da ond, serch hynny, daeth i'r casgliad ni ddylid bod wedi darlledu'r ebychiad gan ei fod yn amlwg yn torri paragraff 1.3 o Ganllawiau Rhaglenni S4C, sy'n dechrau:

"Mae defnyddio iaith anwedus a rhegfeydd sydd â chysylltiadau crefyddol yn digio llawer o bobl. Ni ddylid defnyddio iaith o'r fath mewn rhaglenni sydd wedi'u cynhyrchu'n arbennig ar gyfer plant (h.y. 15 oed neu iau)."

(ii) **Y bennod o *Bandit* a ddarlledwyd ar 9 Rhagfyr 1999**

Yn y rhaglen hon, a ddarlledwyd rhwng 10.00 pm a 10.55 pm, fe wnaeth un o'r cyflwynwyr, Ian Cottrell, mewn sgwrs gyda chyflwynydd benywaidd, gyfeirio at 'contact lenses' mewn ffordd awgrymiadol a rhywiol iawn. Dilynodd hyn ddarllediad cynharach o'r rhaglen pan wnaeth yr un cyflwynydd gyfeirio sawl gwaith mewn modd dibrisiol ac amharchus tuag at unigolyn a ellid ei adnabod, ac a arweiniodd at rybudd i'r cwmni cynhyrchu oddi wrth y Grwp Cydymffurfiaeth. Derbyniodd Boomerang ar y ddau achlysur bod yr ymddygiad yn annerbyniol ac wedi torri'r Canllawiau. Fe wnaeth y cwmni sicrhau S4C bod camau wedi'u cymryd i sicrhau bod cynhyrchwyr a chyflwynwyr *Bandit* yn derbyn eu cyfrifoldebau cydymffurfiaeth yn llawn, gan gynnwys disgyblu'r cynhyrchydd a'r chyflwynydd mewn perthynas â'r achos mwyaf diweddar.

Tra'n croesawi'r camau a gymerwyd gan Boomerang, nododd yr Awdurdod â phryder bod yr iaith mewn cwestiwn, ar sail ymchwil gan y Comisiwn Safonau Darlledu, ymhlith y cryfaf ym marn gwylwyr. Daeth i'r casgliad fod y Canllawiau Rhaglenni wedi'u torri'n glir, yn benodol:

Paragraff 1.1 – ‘Mae’r Ddeddf [Ddarlledu] yn gorfodi S4C i sicrhau nad oes dim yn cael ei gynnwys yng ngwasanaeth S4C sy’n tramgwyddo chwaeth a gwedduster’

Paragraff 1.2 – ‘Mae defnyddio iaith anweddu ... yn digio llawer o bobl. Dylid osgoi defnyddio iaith sy’n debygol o dramgwyddo yn ddiangen mewn unrhyw raglen.’

Wrth gyfleu ei ddyfarniad i’r cwmnïau dan sylw, mae’r Awdurdod wedi ei wneud yn glir nad yw’n disgwyl gweld digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Datganiadau o Ddiddordeb gan y Tîm Rheoli

Mae’r Awdurdod wedi sefydlu trefn ar gyfer datganiadau o ddiddordeb gan ei Aelodau ac ar sut, yn ymarferol, y dylid osgoi gwrthdaro posibl. Mae’r rhain wedi eu cynnwys yn y Còd Gweithredu a fabwysiadwyd, sydd ar Safle We S4C (www.s4c.co.uk). Mae’r Awdurdod yn gweithredu egwyddorion tebyg ar gyfer datganiadau gan aelodau staff. Rhaid i holl fusnes a diddordebau eraill a allai fod yn berthnasol at waith S4C gael ei ddatgan yn ysgrifenedig, a, lle y mae yna unrhyw gwrthdaro yn codi mewn achos unigol, rhaid i’r aelod o staff atal rhag chwarae unrhyw ran yn yr ystyriaeth o’r mater dan sylw. Mae datganiadau gan aelodau’r Tîm Rheoli yn cael eu gwneud i Awdurdod S4C a nodwyd y datganiadau diweddaraf.

Cylch yr Iaith

Ystyriodd yr Awdurdod ddeiseb a gyflwynwyd i’r Prif Weithredwr a swyddogion hyn eraill S4C ar 22 Mawrth 2000 gan gynrychiolwyr Cylch yr Iaith. Roedd y ddeiseb, a gynhwysodd ryw 9,000 o lofnodion, hefyd i’w gyflwyno i BBC Cymru. Yn ogystal i faterion oedd yn benodol ar gyfer Radio Cymru, mynegodd wrthwynebiad i’r hyn a ganfyddodd i fod yn ormoddedd o Saesneg ar S4C a Radio Cymru, ac a nododd eu bod wedi’u sefydlu’n benodol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, ac i bryder ynghylch y bygythiad i ddyfodol y Gymraeg yn gyffredinol o’r hyn mae’n disgrifio sydd mewn effaith yn wasanaethau dwyieithog. Mae’n galw am bolisi ysgrifenedig ar gyfer y sianelau a fyddai’n sicrhau mai Cymraeg yn unig fyddai’n cael ei defnyddio.

Yn dilyn cyflwyniad o’r ddeiseb, cyfarfodd gynrychiolwyr Cylch yr Iaith gyda Prif Weithredwr a swyddogion hyn eraill S4C i drafod y materion hyn mewn cyfarfod a barodd dros awr. Bu cyfnewid llawn o farnau a gwybodaeth, gan gynnwys canlyniadau’r ymchwil ar agweddau’r gwahanol garfanau o’r Cymry Cymraeg tuag at S4C ac yn benodol ar natur y Gymraeg a ddefnyddiwyd ac ar y defnydd o Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg. Cynhaliwyd y cyfarfod mewn ysbryd adeiladol lle’r oedd awydd ar y ddwy ochr i S4C lwyddo yn ei genhadaeth graidd o ddarparu ystod eang o wasanaethau o safon uchel yn yr iaith Gymraeg.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cylch yr Iaith at bob Aelod o’r Awdurdod ac at y Prif Weithredwr. Wrth ddisgrifio’r cyfarfod fel un defnyddiol ac adeiladol iawn, ailbwysleisiodd y llythyr y pwyntiau pwysig a wnaethpwyd yn ystod y cyfarfod ac aeth y tu hwnt i’r pwyntiau a godwyd yn y ddeiseb. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar bwysigrwydd canllawiau tynnach i ddod i ben â’r hyn ystyriodd Cylch yr Iaith fel y rhyddid gormodol a roddwyd ar hyn o bryd i ddefnyddio’r Saesneg am resymau golygyddol yng nghyd-destun rhaglenni penodol; yr angen i osgoi bratiaith; a phryder penodol am y maint o Saesneg ar *Heno*, ynghyd â’r alwad i’w disodli gan raglen gylchgrawn wedi’i anelu at y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn hytrach na’r rheini yn ardaloedd diwydiannol De Orllewin Cymru yn unig.

Derbyniodd yr Awdurdod adroddiad llawn ar y cyfarfod gyda swyddogion hyn S4C a thrafododd y materion a godwyd gan Cylch yr Iaith mewn manylder. Croesawodd yr Awdurdod agwedd positif Cylch yr Iaith tuag at lwyddiant S4C a nododd bod ei gynrychiolwyr wedi cytuno yn y cyfarfod na fyddai'n briodol nac yn realistig i wahardd y defnydd o Saesneg yn llwyr o dan unrhyw amgylchiadau. Roedd yr Awdurdod am glywed oddi wrth holl wylwyr am wasanaethau S4C ac roedd yn gwneud ymdrechion mawr, trwy Wifren y Gwylwyr, cyfarfodydd cyhoeddus, a chan wahodd sylwadau ysgrifenedig, yn ogystal ag ymgymryd ag ymchwil cynulleidfa wrthrychol, er mwyn sicrhau ei fod yn cadw mewn cyswllt ag anghenion a dymuniadau gwylwyr. Dim ond ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i farn ac anghenion gwylwyr wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu'r canllawiau iaith Gymraeg presennol ar gyfer rhaglenni yn Hydref 1998. Gan nodi mai nifer fach iawn o wylwyr oedd wedi cwyno ynglyn â'r defnydd o Saesneg i Wifren y Gwylwyr (dim ond 14 allan o 10,000 o alwadau yn 1999) neu yn y cyfarfodydd cyhoeddus, fe wnaeth yr Awdurdod serch hynny gymryd pryderon Cylch yr Iaith o ddifrif a byddent yn cael eu hystyried ynghyd â'r holl farnau a thystiolaeth eraill.

Roedd yn dal i fod yn fwriad gan yr Awdurdod i gadw gweithrediad y canllawiau a'r canllawiau eu hunain o dan adolygiad gofalus, ac y mae wedi gofyn i'r Uned Fonitro annibynnol a'r Grwp Cydymffurfiaeth i adrodd iddo erbyn yr Haf ar y ffeithiau manwl a ddaethpwyd o hyd iddynt ar y defnydd o Saesneg o fewn holl raglenni S4C.

Materion Eraill

Fe wnaeth yr Awdurdod hefyd nodi adroddiadau ar:

- berfformiad rhaglenni S4C
- waith y Grwp Cydymffurfiaeth
- cwynion
- sefyllfa ariannol S4C
- weithgareddau masnachol.

Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod busnes nesaf yr Awdurdod yng Nghaerdydd ar 28 Ebrill 2000, a fydd cyn hynny yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr TAC (Teledu Annibynnol Cymru).

Bydd yr Awdurdod yn cynnal ei gyfarfod cyhoeddus nesaf am 7.00 pm, ddydd Iau, 25 Mai 2000, yng nghanolfan Celtica, Machynlleth. Cynhelir ei gyfarfod busnes ar y diwrnod canlynol hefyd ym Machynlleth.
